COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR-YNG-NGHINMEIRCH A GYNHALIWYD A'R NOS LUN 27AIN O IONAWR 2025 YN YR YSTAFELL GYMUNEDOL, YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AM 7.00 O'R GLOCH.

1: PRESENNOL:
Y Cynghorwyr Arwel Davies (Cadeirydd), Ian Evans, Rhian Jones, Manon Davies, Helen Jones, Edmund Evans, Philip Williams, Stephen Williams, Bari Evans, Cynghorydd Sir Ddinbych Elfed Williams a'r Clerc.

2. YMDDIHEURIADAU.
Dim.

3. DDATGAN DIDDORDEB.
Dim.

4. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.
Cadarnhawyd cofnodion blaenorol y Cyngor a gynhaliwyd a'r 25ain o Dachwedd 2024

5. MATERION YN CODI O'R COFNODION SYDD DDIM AR YR AGENDA ISOD.
A: Nid mae'r Cyngor Sir Ddinbych yn bwriadu rhoi arwyddion ailadrodd 20 filltir yr awr heibio'r Ysgol Bro Cinmeirch tuag at y King's Head yn Llanrhaeadr.
B. Tipio anghyfreithlon rhwng Y Glyn a Llys. Mae'r Cadeirydd wedi derbyn arwyddion CCTV ar y safle.
C. Derbyniwyd e-bost oddi wrth Mrs Liz Karmeen yn diolch i'r Cyngor am y rhodd o £135.00 i'r Pwyllgor Rhieni ac Athrawon Ysgol Pant Pastynog…

6. TRAFODAETH GYDA'R CYHOEDD YN BRESENNOL YN Y CYFARFOD.
Mynychodd Mr Aled Williams y cyfarfod i drafod symiau cymunedol 2025 Cyngor Sir Ddinbych.

7. SEDD WAG Y CYNGOR.
Mae'r Clerc wedi hysbysu'r "Hysbysiad o Gyfethol" am y sedd wag sydd yn bodoli ar y Cyngor.

8. ARWYDDION PENTRE' PRION.
Mae'r Cadeirydd mewn cysylltiad gyda PR Signs ynglyn ar arwyddion.

9. SESIYNAU HYFFORDDIANT UN LLAIS CYMRU.
Derbyniwyd yr aelodau trwy e-bost, rhestr o'r hyfforddiant Un Llais Cymru am y chwarter yn diweddu 31ain o Fawrth 2025.

10. SESIYNAU HYFFORDDIANT CYNGOR SIR DDINBYCH.
Derbyniwyd yr aelodau trwy e-bost, rhestr o'r hyfforddiant Cod Ymddygiad am y flwyddyn 2024/25.

11. CYTUNDEB RHWYDWAITH SECTOR CYHOEDDUS CYMRU.

Derbyniwyd yr wybodaeth ganlynol oddi wrth Reolwr Ansawdd, Perfformiad a Chontractau Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer pentrefi Llanrhaeadr a phant pastynog:-

"Rydym yn ysgrifennu i'ch hysbysu bod y gwaith o osod band eang ac offer Wi-Fi, a ariannwyd drwy gyllid Llywodraeth Cymru, wedi cael ei ddarparu o dan Gytundeb Rhwydwaith Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus Sir Ddinbych. Fodd bynnag, mae'r cyllid hwnnw bellach wedi dod i ben, ac ni all Cyngor Sir Ddinbych dalu costau parhaus y ddarpariaeth hon na'r gost o'i ganslo.

Os hoffech chi barhau â'r gwasanaeth hwn, y gost flynyddol am y eleni yw £466.80

Os nad ydych chi'n dymuno parhau, bydd ffi canslo o £303.42 yn weithredol.

Cadarnhewch eich penderfyniad erbyn Chwefror 4ydd 2025 drwy ateb yr e-bost yma.

Os nad ydym ni'n derbyn ymateb erbyn y dyddiad yma a bod y gwasanaeth yn dod i ben, bydd y ffi canslo yn weithredol yn awtomatig."

Penderfynwyd peidio â pharhau'r gyda'r gwasanaeth a rhoi apêl i'r Cyngor Cymuned beidio â thalu'r ffi canslo £303.42.

12. SYMIAU CYMUNEDOL 2025 CYNGOR SIR DDINBYCH.

Derbyniwyd e-bost gan Adran Datblygu Gymunedol ynglŷn â'r Wybodaeth Ddiweddaraf am Symiau Gohiriedig Mannau Agored - Rownd i agor 13eg Ionawr hyd at 7fed Ebrill 2025. Y sŵn sydd ar gael i'r mudiadau o fewn ardal Cyngor Cymuned Llanrhaeadr ydy £15,353.88.

13. OFFER PARC CHWARAE YN LLANRHAEADR.

Mi fydd Pwyllgor Rheoli' Adnoddau Cymunedol Llanrhaeadr yn rhoi cais am grant o'r gronfa Symiau Cymunedol 2025 Cyngor Sir Ddinbych.

14. MATERION CYLLID

A: Derbyniwyd yr aelodau trwy e-bost, rhestr ddiweddaraf o'r derbyniadau a thaliadau banc y Cyngor am y cyfnod thwng 1af Ebrill 2024 hyd 20fed o Ionawr 2025.

B. Derbyniwyd rhan olaf o'r precept y Cyngor am y flwyddyn ariannol yn diweddu 31ain o Fawrth 2025 £5,819.00.

C. Cadarnhawyd y taliadau canlynol:-

1 Ffi dal fisol Banc HSBC £5.00.

2. Cyngor Sir Ddinbych am ddau gyfarfod y Cyngor Cymuned £40.00.

3. HM Revenue & Customs ar gyfer PAYE am y chwarter yn diweddu 31ain o Fawrth 2024 £125.40.

4. Rhodd i'r Gymdeithas rhieni ac Athrawon Ysgol Pant Pastynog £135.00.

15. MATERION GWARIANT CYLLIDEBOL.

Cytunodd Y Cynghorydd Stephen Williams edrych i mewn am gostau ac yn y blaen i'r offer canlynol i'r gymuned:-

A: Goleuadau Stryd y Nadolig.

B. Mannau cyfarfod/ymgynnull.

C. Dodrefn Stryd, Celf a Phlannu.

16. CEISIADAU CYNLLUNIO.
A: Cais Cynllunio: 23/2024/1500/PO - Datblygu 0.5ha o dir trwy godi 6 annedd tai cymdeithasol (cais amlinell gan gynnwys mynediad) ar dir ym Mhenbryn Llan, Llanrhaeadr.
Penderfynwyd fod yna ddim gwrthwynebiad i'r cais cynllunio a rhoi'r sylwadau canlynol:-
1: Cadarnhau os mae 4 preswyl tair loft a 2 preswyl 2 loft neu 2 preswyl 3 loft a phreswyl 2 loft sydd yn gywir.
2. Eisiau llwybr troed rhwng y safle ddatblygai a'r King's Head.
B. Cais Cynllunio: 23/2024/1414/PF - Datblygu tir trwy godi annedd menter wledig, ffurfio mynediad a pharcio, gosod offer trin pecyn, tirlunio a gwaith cysylltiedig ar dir yn Hafodty Ddu, Saron.
Penderfynwyd fod yna ddim gwrthwynebiad i'r cais cynllunio a rhoi'r sylwadau canlynol:-
1: Eisiau "Grid Reference" cywir i'r preswyl newydd.
2. Eisiau amod Adran 106 fod y preswyl newydd i amaethwr yn unig.

17. GOHEBIAETH.
Dosbarthodd y Clerc chwe e-bost i'r aelodau am wybodaeth ers cyfarfod blaenorol y Cyngor.

18. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.
Derbyniwyd adroddiad Cynghorydd Sir Ddinbych, Elfed Williams, fod rhai biniau ddim yn cael eu casglu yn drefn newydd ac yn adroddi broblem i'r Swyddogion perthnasol y Cyngor yn rheolaidd i arbed y broblem yn y dyfodol.

19. MATERION FFYRDD YN Y GYMUNED.
Penderfynwyd y Clerc adroddi'r materion canlynol i'r Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych:-
A: Ffordd heibio Rossa Bach at Brŷn Gwynt, Prion eisiau sylw.
B. Dwr yn cynilo ar y ffordd rhwng Ysgol Bro Cinmeirch a'r Kings Head yn Llanrhaeadr.
C. Ffordd wrth y garreg filltir yn Llanrhaeadr eisiau sylw.
D. Allt rhwng Prion a Saron eisiau sylw.
E. Dwr yn llifo ar y ffordd heibio'r Cof Golofn yn Llanrhaeadr.
F. Ffordd heibio Menai Diddos ym Mhrion eisiau sylw.
G. Eisiau biniau graeanu rhwng Capel Saron, Pen-y-Ffrith a Meifod yn Saron.

20. MATERION BRYS O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.
Penderfynwyd gwahodd Rheolwr Risg ac Asedau Adran Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol Cyngor Sir Ddinbych i'r cyfarfod nesaf y Cyngor i drafod materion ffyrdd yn y gymuned.

21. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR - NOS LUN 24AIN O CHWEFROR 2025 YN YR YSTAFELL GYMUNEDOL, YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AM 7.00 O'R GLOCH.